

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

14 Hydref 2021

10:00 – 12:00

Via Zoom

Nodyn

Presennol

David Clubb, Cadeirydd

Tom Crick, Comisiynydd

Stephen Gifford, Comisiynydd

Helen Howells, Comisiynydd

Rob Irvine, Comisiynydd

Eluned Parrott, Comisiynydd

Nicola Britton, Swyddfa CSCC

Adrian Davies, Swyddfa CSCC

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru

Ar gyfer eitem 2 yn unig:

Rhys Wyn Jones, Pennaeth RenewableUK Cymru

Hywel Lloyd, Y Ganolfan Adeiladu Gweithredol a'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA)

Ymddiheuriadau

Ceri Doyle, Comisiynydd

1. Croeso

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y comisiynwyr i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd rai syniadau ar sut y dylid cynnal cyfarfodydd comisiwn a gwahodd comisiynwyr i anfon eu syniadau eu hunain ato.

Camau i'w cymryd: Comisiynwyr i anfon syniadau ar arfer da ar gyfer cadeirio cyfarfodydd i'r Cadeirydd.

2. Rhwystrau i ynni adnewyddadwy

2.1 Disgrifiodd Rhys Wyn Jones yn fyr gyfleoedd a rhwystrau i ynni adnewyddadwy o safbwynt datblygwr.

2.2 Rhoddodd Hywel Lloyd y wybodaeth ddiweddaraf ar adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig ar Ail-egnio Cymru.

2.3 Datganodd y Cadeirydd ddiddordeb mewn datblygiadau gwynt sy'n arnofio a gofynnodd i'r mater beidio â chael ei drafod yn fanwl.

2.4 Trafododd y cyfarfod rai o'r cyfleoedd a'r heriau i Gymru o ran defnyddio ynni adnewyddadwy.

3. Llywodraethu a rhaglen waith

Gwrthdaro buddiannau

3.1 Ailadroddodd y Cadeirydd ei gysylltiad â Hiraeth Energy LLP, cwmni sy'n anelu at ddatblygu prosiectau gwynt sy'n arnofio ar y môr.

Rhaglen Waith

3.2 Mae'r Cadeirydd yn cynnig y dylai'r comisiwn geisio cyllideb o tua £100k-£150k gan Lywodraeth Cymru i lunio adroddiad ar ynni adnewyddadwy yn 2022. Gwahoddodd y Cadeirydd gomisiynwyr i anfon eu barn ato ar y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer y gwaith hwnnw.

Camau i'w cymryd: Comisiynwyr i anfon syniadau ar ofynion y gyllideb ar gyfer 2022 at y Cadeirydd o fewn wythnos.

3.3 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a thrafodwyd lywodraethu a rhaglen waith y comisiwn.

3.4 Bwriad y Cadeirydd yw i anfon papur ar lywodraethu a'r rhaglen waith at y Dirprwy Weinidog wythnos nesaf.

Cyfathrebu

3.5 Cytunodd y Comisiynwyr y dylai'r comisiwn ddatblygu gwefan annibynnol y dylid ei defnyddio i roi gwaith y comisiwn yn gyhoeddus.

3.6 Cytunodd y Comisiynwyr y dylai'r comisiwn, ym mlynnyddoedd 2 a 3 o'r rhaglen i'r 3 blynedd nesaf, ymgynghori â'r cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc, ar yr angen am seilwaith. Cynigiodd y Cadeirydd:

- cymryd cyngor gan Gomisiwn Seilwaith Seland Newydd ar ei ddull o ymgynghori â'r cyhoedd;
- ymgysylltu â swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol ar y posibilrwydd o gydweithio ar ymgynghoriad cyhoeddus;
- a rhoi adborth i gomisiynwyr.

Camau i'w cymryd: Cadeirydd i ddatblygu cynnig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar seilwaith